- Datblygu adnoddau sy'n gwneud cysylltiadau rhwng cyfrifoldebau'r Cynulliad, materion lleol a gweithgarwch yr Aelod;
- Cynorthwyo gyda datblygu Adroddiad Blynyddol a gynhyrchir yn broffesiynol;
- Cynhyrchu cylchlythyrau rheolaidd;

Ni chaniateir defnyddio'r Gronfa ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â gwleidyddiaeth y pleidiau.

**7.14.4** Caiff yr Aelodau gyfuno'r gyllideb o £2,500 gydag Aelodau eraill i greu cronfa fwy. Caiff Aelodau hefyd drosglwyddo arian i'r blaid i greu cronfa fwy at ddibenion ymchwil yn unig. Caiff Aelod hefyd ychwanegu at y Gronfa â chyllid ychwanegol o'i gyllideb staffio ei hun.

**7.14.5** Bydd teitl yr ymchwil y mae'r gronfa wedi cael ei defnyddio ar ei gyfer, ynghyd â chost ac enw darparwr y gwasanaeth, yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol gan y Bwrdd.

**7.14.6** Ni chaniateir defnyddio'r Gronfa bedwar mis cyn etholiad cyffredinol arferol (h.y. o fis Ionawr mewn blwyddyn etholiad os yw'r etholiad wedi'i drefnu ar gyfer mis Mai).

**7.14.7** Rhaid i Aelodau sydd am wneud hawliad:

a) gyflwyno cynnig ysgrifenedig i'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau sy'n amlinellu hyd, cost a phwrpas y gwaith gyda digon o fanylion i alluogi'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau i ystyried y cais;

b) cael cymeradwyaeth gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau cyn i'r gwaith gychwyn; a

c) sicrhau bod yr egwyddorion cymorth ariannol a nodir yn y Penderfyniad hwn yn cael eu bodloni ar bob achlysur, gan gynnwys yr egwyddor na ddylai unrhyw waith ymwneud â gweithgarwch gwleidyddol plaid (fel y nodir ym mharagraff 1.3.3), ond nid yn gyfyngedig i hynny.

**7.14.8** Rhaid i Aelodau gydymffurfio â'r rheolau a'r canllawiau ar ddefnyddio'r Gronfa Polisi, Ymchwil a Chyfathrebu.

## 8.7A Polisi ac ymchwil

**8.7A.1** Caiff Pleidiau Gwleidyddol ddefnyddio'r Balans sy'n Weddill i ddod ag arbenigwyr allanol i mewn, am gyfnod penodedig, i gynghori neu i helpu er mwyn cyflawni darn o waith ymchwil penodol ("y gwaith").

**8.7A.2** Efallai y bydd y gronfa yn cael ei defnyddio ar gyfer ymchwil i:

- Datblygu polisi,
- Archwilio materion sydd o bwys i etholwyr
- Craffu ar bolisi, deddfwriaeth neu gyllid.

**8.7A.3** Rhaid i Blaid sydd am ddefnyddio'i Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol yn y modd hwn:

a) gyflwyno cynnig ysgrifenedig i'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau sy'n amlinellu hyd, cost a phwrpas y gwaith gyda digon o fanylion i alluogi'r tîm Cymorth Busnes i Aelodau i ystyried y cais;

b) cael cymeradwyaeth gan y tîm Cymorth Busnes i Aelodau cyn i'r gwaith gychwyn;

c) sicrhau bod yr egwyddorion cymorth ariannol a nodir yn y Penderfyniad hwn yn cael eu bodloni ar bob achlysur, gan gynnwys yr egwyddor na ddylai unrhyw waith ymwneud â gweithgarwch plaid wleidyddol (fel y nodir ym mharagraff 1.3.3), ond nid yn gyfyngedig i hynny.

**8.7A.4** Bydd teitl yr ymchwil y mae'r gronfa wedi cael ei defnyddio ar ei gyfer, ynghyd â chost ac enw darparwr y gwasanaeth, yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol gan y Bwrdd.

